

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Strategaeth Camlas Mynwy ac Aberhonddu 2024 - 2034

# Cynnwys


Rhagair . . . . . . . . . . 3

Crynodeb Gweithredol . . . . . . . . . . 4

Strategaeth Camlas Mynwy ac Aberhonddu 2024 - 2034 . . . . . . . . . . 6

Y Weledigaeth . . . . . . . . . . 9

Y Cynllun Sirol . . . . . . . . . . 10

Themâu ac amcanion strategol . . . . . . . . . . 12

Cyflwyno'r Strategaeth: Y Camau . . . . . . . . . . 21

Geirfa . . . . . . . . . . 25

Cynllun Gweithredu Camlas Torfaen . . . . . . . . . . 26




# Rhagair

**Mae'n fraint i Dorfaen bod Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn llifo drwy ein Sir. Gan ymdroelli i lawr o lethrau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'n llifo heibio Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, Pont-y-pŵl, ac yna drwy Gwmbrân i Gasnewydd. Yn rhan ychwanegol, mae Braich Crymlyn, yn cysylltu Casnewydd â Choedwig Cwmcarn a'r holl gymunedau ar hyd y ffordd. Mae'r gamlas yn cyffwrdd â chalonnau'r holl gymunedau hyn ac mae'n ased gwirioneddol wych sydd yn eiddo i'r Cyngor.**

Mae'r gamlas yn cael ei gwerthfawrogi'n aruthrol gan ein cymunedau, yn enwedig pan oedd pandemig Covid-19 yn ei anterth. Daeth y gamlas yn achubiaeth i lawer o bobl a aeth ati i'w defnyddio am resymau lles ac i wneud ymarfer corff. Ers y pandemig mae'r bobl sy'n ei defnyddio mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd yn parhau i garu a mwynhau'r gamlas. Defnyddir y gamlas i bysgota, cerdded ac ymarfer corff, cymudo, gwylio bywyd gwyllt, mae'n fodd o arfer ymwybyddiaeth ofalgar, a gellir teithio arni. Yng Nghwmbrân, fe'i disgrifiwyd fel darn bach o gefn gwlad mewn amgylchedd trefol sydd fel arall yn brysur.

Gwerthfawrogir y gamlas nid yn unig gan ein cymunedau, mae o bwysigrwydd enfawr i fywyd gwyllt - ein treftadaeth naturiol. Yn ogystal â bod yn gynefin, mae'r gamlas yn gweithredu fel coridor gwyrdd a glas sy'n caniatáu i fywyd gwyllt deithio pellteroedd mawr a chysylltu â phoblogaethau eraill. Mae'r fath gyswllt yn bwysig i wydnwch bywyd gwyllt gan y gall rhywogaethau symud yn hawdd, dod o hyd i fwyd, lloches a bridio. Mae dyfrffordd y gamlas, ymylon gwyrdd a glannau coediog i gyd yn chwarae rôl hanfodol.

Mae treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol y gamlas yr un mor werthfawr. Mae'r gamlas a adeiladwyd dros 200 mlynedd yn ôl gan ein hynafiaid, yn rhan o enaid y cymoedd yng Nghymru. Rhoddodd y gamlas fywyd i'r cwm hwn pan welwyd twf diwydiant enfawr am y tro cyntaf, cyn aeth y rheilffyrdd ati i'w disodli, a theimlir yr etifeddiaeth hon hyd yn oed heddiw pan fydd pobl yn siarad am y gamlas.

Yn y Strategaeth hon, mae'r Cyngor yn nodi ei uchelgais i adfer y gallu i deithio'n llawn ar y gamlas i ganol tref Cwmbrân erbyn 2034. Mae dŵr yn ychwanegu gwerth, a chydnabyddir bod prosiectau i adfer dyfrffyrdd yn cynnig manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol. Bydd cyrchfan ffyniannus a reolir yn dda ar y gamlas yn sbardun ar gyfer gwaith adfywio sylweddol yng nghanolfannau trefol Torfaen. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dim ond trwy weithio mewn partneriaeth â grwpiau'r gamlas, sy'n brofiadol ac angerddol, y gellir cyflawni'r dyhead hwn. Yn Nhorfaen rydym yn ffodus bod gennym bartneriaid sy'n gweithio gyda ni a diolch iddynt hwy, rydym eisoes wedi gweld canlyniadau aruthrol ar y gamlas yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ochr yn ochr â hwy y datblygwyd y Strategaeth hon.

Mae'r gamlas yn wynebu cryn lawer o heriau, ac maent wedi eu nodi yn y tudalennau hyn. Gyda gweledigaeth hirdymor i adfer y gallu i deithio ar y gamlas, mae angen datrys materion allweddol yn y tymor byr a chanolig i'n caniatáu i wireddu hynny. Dyma pam mae'r Cyngor wedi nodi ei fwriad cam wrth gam i fynd ati i ddatblygu'r gamlas a chreu'r cyrchfan gwefreiddiol y dylai fod, yn Nhorfaen, ac un o bwysigrwydd rhanbarthol os nad cenedlaethol.


Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Gamlas yn Nhorfaen ac edrychwn ymlaen at wireddu potensial llawn y gamlas drwy gyflawni nodau'r strategaeth hon yn ystod y 10 mlynedd nesaf.



**Y Cynghorydd Joanne Gauden**

**Aelod Gweithredol dros yr Economi, Sgiliau ac Adfywio**

# Crynodeb Gweithredol



Camlas Mynwy ac Aberhonddu yw canolbwynt Cyrchfan Torfaen, sy'n cysylltu ein profiadau rhagorol i ymwelwyr ledled Torfaen. Yn ogystal â bod yn doreth o fywyd gwyllt a hanes, mae'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ein cymunedau.

Ymhellach i hynny, mae'r ffaith ei bod mor agos i dair o drefi mwyaf y fwrdeistref yn golygu bod cyfleoedd sylweddol i'r gamlas gefnogi camau adfywio economaidd canol trefi Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân.

Gan gydnabod y ddau gyfle o'r fath sy'n rhyng-gysylltu, datblygwyd y weledigaeth strategol ar gyfer y gamlas mewn partneriaeth â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol:

*Mae'r gamlas yn goridor bywiog o ran hamdden, treftadaeth a lles. Mae'n darparu cyfleoedd buddsoddi, cyflogaeth, hyfforddiant a chyfranogiad i'n cymunedau lleol sydd ar ei hyd. Mae'n cefnogi'r economi leol ac yn cyfrannu'n fawr at ansawdd bywyd yn yr ardal. Erbyn 2034, bydd dyfrffordd ffyniannus y gellir teithio arni wedi ei chreu, yn cysylltu Canol Tref Cwmbrân â'r rhwydwaith gogleddol ehangach.*

Bydd y Strategaeth yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd ac mae'n nodi'r rôl bwysig y gall y gamlas gyfan ei chwarae wrth gefnogi ffyniant a llesiant ledled Torfaen, yn ogystal â rhoi manylion penodol am rheoli elfennau'r gamlas sydd yn eiddo i Dorfaen. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd dull graddol yn arwain y gwaith o gyflwyno:

| **Cam 1 2024 – 2026 Adeiladu'r Sylfeini** |
| --- |
| Erbyn 2026, mae llwyddiant yn edrych fel a ganlyn: Datblygir y gallu i deithio ar y gamlas i ddenu mwy o ymwelwyr |
| *Llifddor: Er mwyn symud ymlaen i Gam 2, bydd angen cadarnhau bod cyflenwad dŵr cynaliadwy ar gael i sicrhau y gellir teithio ar y gamlas yn y tymor hir* |
| **Cam 2 2026 – 2029 Symud Tuag At Adfer** |
| Erbyn 2029, mae llwyddiant yn edrych fel a ganlyn: Mae'r gallu i deithio ar y gamlas wedi ei adfer hyd at Mount Pleasant Road |
| **Cam 3 2029 – 2034 Symud tuag at Gyrraedd Canol y Dref** |
| Erbyn 2034, mae llwyddiant yn edrych fel a ganlyn: Mae'r gallu i deithio ar y gamlas wedi ei adfer i gyrchfan newydd ar y gamlas yng nghanol tref Cwmbrân |

Mae pum maes gwaith 'â thema' sydd angen dod at ei gilydd ar draws y tri cham er mwyn sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyfoethog ac amrywiol y gamlas. Mae'r themâu, wedi'u hintegreiddio ar draws pob gweithgaredd:

1. Cynnal, Cadw a Rheoli Cynaliadwy
2. Datblygu Cyrchfan, Hamdden a Theithio
3. Cymuned a Phartneriaeth
4. Treftadaeth Gydnerth
5. Adfer y Gamlas a'r Gallu i Deithio i Ganol Tref Cwmbrân



# Strategaeth Camlas Mynwy ac Aberhonddu 2024 - 2034



## Cyrchfan Torfaen

Mae atyniadau twristiaeth yn Nhorfaen yn cynnig llu o brofiadau o'r radd flaenaf i ymwelwyr. O gerdded ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, beicio mynydd drwy olygfeydd syfrdanol gogledd Torfaen, trochi mewn hanes ar Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a gydnabyddir yn rhyngwladol, i fwynhau arddangosfa neu berfformiad diwylliannol yn Amgueddfa Pont-y-pŵl, Neuadd Gweithwyr Blaenafon, Llantarnam Grange neu Theatr y Congress.

Yn unigryw yng Nghymru, mae'r gamlas hefyd yn rhedeg trwy holl ganol ein trefi neu'n agos atynt. Mae basnau neu fasnau posibl ar safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, ym Mhont-y-moel ym Mhont-y-pŵl a Five Locks a Canalside yng Nghwmbrân. Gall y rhain sbarduno twf a datblygiad economaidd, gan ddenu ymwelwyr a buddsoddiad.

Mae'r gamlas nid yn unig yn doreth o fywyd gwyllt a hanes, mae'n cael ei werthfawrogi'n aruthrol gan ein cymunedau sy'n teimlo'n angerddol iawn drosti. Mae'r gamlas yn Nhorfaen yn unigryw. Bydd camlas sy'n cael ei rheoli'n dda yn creu effeithiau cadarnhaol iawn ar bobl a chymunedau, gan wella ansawdd bywyd a lles.

## Y Dŵr sydd ar gael

Mae cyflenwad cynaliadwy o ddŵr yn hanfodol ar gyfer camlas sy'n gweithredu'n llawn ac y gellir teithio arni. Pan ysgrifennwyd hwn, ni wyddys faint o ddŵr fydd ar gael yn y tymor hir am fod trwyddedau tynnu dŵr ar waith ar bob rhan o'r gamlas. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adran Gweledigaeth yn y ddogfen hon.

## Beth fydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn ei wneud?

Mae'r Strategaeth hon yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu a fydd yn cefnogi cydweithio, gweithio mewn partneriaeth a chydlynu gweithgareddau yn well i gyflawni potensial y gamlas fel canolbwynt ein hymagwedd Cyrchfan Torfaen. Drwy weithio mewn partneriaeth â'n cymunedau yn ogystal â phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, bydd y Strategaeth hon a'r Cynllun Gweithredu yn sicrhau bod y gamlas yn cyflawni'r potensial hwn, gan ddilyn dull cytbwys o wneud penderfyniadau.

Bydd y Strategaeth yn rhoi'r llwyfan i wneud ceisiadau ariannu effeithiol yn y dyfodol i'r Llywodraeth a chyrff cyllido eraill.

## Sut mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu wedi cael eu datblygu ac ar gyfer pwy mae'r rhain?

Mae'r Strategaeth hon wedi'i pharatoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mewn ymgynghoriad ag ystod ehangach o grwpiau sydd â buddiant, sefydliadau ac unigolion, ac mae'n adlewyrchu dros 1200 o ymatebion i'r arolwg gan y gymuned.

Dangosodd yr ymateb yn ysgubol faint y mae pawb yn hoffi'r gamlas. Roedd bioamrywiaeth a rheolaeth gyffredinol y gamlas yn cael llawer o sylw, yn ogystal â datblygu coridor y gamlas fel adnodd hamdden i'r gymuned.


Cefnogir y Strategaeth gan Gynllun Gweithredu sy'n darparu'r mecanwaith ar gyfer blaenoriaethu, cyflawni, a monitro gweithgaredd ar y gamlas. Bydd cyflawni'r Cynllun Gweithredu yn dibynnu ar gytundeb, cydweithio, ac ymrwymiad ac adnoddau hirdymor gan ystod o bartneriaid. Bydd ymgysylltu â phartneriaid allweddol y gamlas yn hanfodol i gyflawni.

## Y Gamlas

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn cynnwys 35 milltir (56km) o gamlas y gellir teithio arni o Aberhonddu i Fasn Five Locks yng Nghwmbrân, 7 milltir (11km) arall o gamlas na ellir teithio arni ('gweddill') i Gasnewydd ar y brif linell, a 5 milltir (6.5k) i Gwmcarn ar Fraich Crymlyn. A hithau'n cael ei hystyried yn eang fel un o'r dyfrffyrdd mwyaf golygfaol yn y DU, mae gwerth aruthrol y gamlas yn amlwg. Mae'n ymledu ar draws rhai o'r tirnodau naturiol a hanesyddol gorau yng Nghymru yn cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon. Wrth iddi ymlwybro i lawr tua'r arfordir, mae'n mynd drwy ardaloedd o gefn gwlad agored ac aneddiadau trefol mawr.

Mae'r gamlas yn cynnig cyfle unigryw i gysylltu'r atyniadau hyn, gan yrru nifer yr ymwelwyr a thwf economaidd i galon rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae gan y gamlas sawl perchennog ar ei hyd. Glandŵr Cymru - yr Ymddiriedolaeth




Camlesi ac Afonydd yng Nghymru sy’n berchen ar y rhan ogleddol, ac mae’r rhan i’r de o Bont-y-pŵl yn eiddo i’r awdurdodau lleol perthnasol - Torfaen, Casnewydd a Chaerffili. Ni ellir teithio ar y rhan ddeheuol o’r gamlas oherwydd sawl croesfan a adeiladwyd dros linell y gamlas lle mae wedi’i chyfeirio mewn ceuffosydd trwy bibellau o dan y ffyrdd. Mae rhan geuffos gyntaf y gamlas yn Five Locks Road yng Nghwmbrân ac o’r pwynt hwn i’r de, mae’r gamlas yn cael ei hystyried yn gamlas sy’n ‘weddill’ neu nad oes modd teithio arni.

Mae’r Strategaeth a’r Cynllun Gweithredu hwn yn ymwneud yn uniongyrchol a’r adran o’r gamlas ym Mwrdeistref Torfaen. Mae’n cynnwys ‘coridor y gamlas’, sy’n cynnwys: y sianel ddŵr; y llwybr tynnu (llwybr troed sy’n rhedeg ar hyd y ddyfrffordd); a’r clawdd a’r nodweddion terfyn cyfagos.


Mae tua hanner y gamlas yn y Fwrdeistref yn eiddo i Landŵr Cymru (CRT). Gellir teithio ar y rhan hon yn gyfan gwbl. Trosglwyddir y berchnogaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ger Pont 47 (Soloman’s Bridge) sy’n golygu bod y Cyngor yn gofalu am ran fer (0.75 milltir) o gamlas y gellir teithio arni i fasn Five Locks. I’r de o Five Locks, cyfeirir at y gamlas fel camlas sy’n ‘weddill’ ac nid all gychod deithio arni. Mae’r rhan hon, sydd tua 3.75 milltir o hyd yn eiddo i’r Cyngor ac yn cael ei rheoli ganddo hyd at y ffin weinyddol gyda Chyngor Dinas Casnewydd, lle mae Casnewydd yn berchen arni.

Mae’r Strategaeth yn cydnabod bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gyfrifoldeb rheoli uniongyrchol a phwerau i wneud penderfyniadau ar yr adrannau y mae’n berchen arnynt yn unig. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda pherchnogion cyfagos y gamlas i ddatblygu mentrau cydgysylltiedig sy’n datblygu ac yn hyrwyddo’r gamlas fel atyniad mawr yn ne a chanolbarth Cymru.





# Y Weledigaeth



Datblygwyd y weledigaeth strategol ar gyfer y gamlas mewn partneriaeth â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol:

> *Mae'r gamlas yn goridor bywiog o ran hamdden, treftadaeth a lles. Mae'n darparu cyfleoedd buddsoddi, cyflogaeth, hyfforddiant a chyfranogiad i'n cymunedau lleol sydd ar ei hyd. Mae'n cefnogi'r economi leol ac yn cyfrannu'n fawr at ansawdd bywyd yn yr ardal. Erbyn 2034, bydd dyfrffordd ffyniannus y gellir hwylio arni wedi ei chreu, yn cysylltu Canol Tref Cwmbrân â'r rhwydwaith gogleddol ehangach y gamlas.*

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, mae angen dull graddol dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae'r camau i'w gweld isod, gyda mwy o fanylion yn y tudalennau canlynol.


| **Cam 1 2024 – 2026 Adeiladu'r Sylfeini** |
|---|
| Erbyn 2026, mae llwyddiant yn edrych fel a ganlyn: Datblygir y gallu i deithio ar y gamlas i ddenu mwy o ymwelwyr |
| *Llifddor: Er mwyn symud ymlaen i Gam 2, bydd angen cadarnhau bod cyflenwad dŵr cynaliadwy ar gael i sicrhau y gellir teithio ar y gamlas yn y tymor hir* |
| **Cam 2 2026 – 2029 Symud Tuag At Adfer** |
| Erbyn 2029, mae llwyddiant yn edrych fel a ganlyn: Mae'r gallu i deithio ar y gamlas wedi ei adfer hyd at Mount Pleasant Road |
| **Cam 3 2029 – 2034 Cyrraedd Canol y Dref** |
| Erbyn 2034, mae llwyddiant yn edrych fel a ganlyn: Mae'r gallu i deithio ar y gamlas wedi ei adfer i gyrchfan newydd ar y gamlas yng nghanol tref Cwmbrân. |

Mae'n amlwg o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid bod angen gwneud mwy i gynnal y gamlas yn y tymor byr. Mae hyn nid yn unig yn gwella'r ased ar gyfer defnydd cymunedol yn y tymor byr, ond mae hefyd yn adeiladu'r achos busnes strategol i ddenu'r buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gwaith o'i adfer. Oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd ynghylch chwyddiant costau deunyddiau, y cyllid refeniw sydd ar gael a chyfalaf ar raddfa fawr, mae angen ailedrych ar y cynlluniau presennol ar gyfer adfer ac adnewyddu fel y gellir cyflwyno tafluniad realistig o'r costau presennol a fydd yn caniatáu nodi rheoli prosiectau ac ariannu addas. Mae hefyd angen darn allweddol o waith i edrych ar y dŵr sydd ar gael a chynaliadwyedd y dŵr hwnnw.

Fel strwythur a wnaed gan ddyn, rhaid ail-lenwi'r gamlas yn barhaus â dŵr, gan fod dŵr yn cael ei golli'n naturiol bob dydd oherwydd ei fod yn anweddu ac yn diferu o'r gamlas. Mae'r gallu i deithio ar y gamlas yn dibynnu ar gyflenwad dŵr sy'n ddigonol a chynaliadwy i gynnal y dyfnder cywir i gychod a chaniatáu i'r lociau weithio. Felly, mae'r cyflenwad rheolaidd o ddŵr i'r gamlas yn elfen allweddol o reoli'r rhannau y gellir teithio arnynt a gweddill y gamlas sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae Deddf Dŵr 2003 yn ei gwneud yn ofynnol adolygu pwyntiau tynnu dŵr a chytuno ar drwyddedau sy'n rheoli llif a chyflenwi dŵr i'r gamlas. Mae hyn er mwyn diogelu statws ecolegol arbennig yr afonydd a'r nentydd sy'n bwydo'r gamlas, yn enwedig Afon Wysg sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae sicrhau bod dŵr ar gael yn risg strategol y mae'r Cyngor a'n partneriaid yn parhau i'w monitro. Bydd adfer a defnyddio nifer o lociau i Ganol y Dref yn galw am gyflenwad sylweddol o ddŵr ychwanegol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i geisio atebion cynaliadwy i sicrhau bod dŵr ar gael. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn cael ei adrodd drwy broses adrodd flynyddol y Strategaeth. Bydd unrhyw effeithiau o ran cyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth hefyd yn cael eu hadolygu a'u hystyried.



# Y Cynllun Sirol



Wedi'i ysbrydoli gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Cynllun Sirol sy'n tynnu sylw at ein huchelgais i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen rhwng 2022 a 2027. Mae amcanion Strategaeth y Gamlas wedi'u cysylltu â rhai'r Cynllun Sirol, fel y nodir isod, fel y gellir cytuno ar raglen flynyddol o weithgareddau i'n helpu i fonitro a chyflawni ein huchelgeisiau.

| Amcanion Llesiant | Amcanion Strategaeth y Gamlas |
|---|---|
| **4. Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy drwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol** | Amcan 5: Defnyddio'r gamlas i'r eithaf fel llwybr teithio strategol trwy wella'r seilwaith Teithio Llesol, cynnig cyfleusterau gwell a chynyddu cyfleoedd i bobl ddewis trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer eu taith gyfan neu rywfaint o'u taith<br>Amcan 6: Cefnogi dull partneriaeth o weithredu, cyflwyno, cyfathrebu a monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol drwy weithredu fframwaith llywodraethu<br>Amcan 7: Adeiladu a gwella cydlyniant cymunedol ar hyd coridor y gamlas, drwy ymgysylltu â chymunedau amrywiol i gyd-greu cyfleoedd cynhwysol i fwy o bobl gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Strategaeth hon<br>Amcan 8: Meithrin rhwydwaith a rhaglen o Wirfoddolwyr medrus ac ymgysylltiedig ar gyfer y gamlas, sy'n cefnogi camau cynaliadwy o rheoli coridor y gamlas drwy gymryd ymagwedd gydlynol at weithgarwch |
| **5. Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol** | Amcan 1: Rheoli ased y gamlas yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy i ddarparu dyfrffordd a llwybr tynnu diogel a gweithredol, gydag effeithiau newid hinsawdd newydd ac argyfwng natur yn cael eu hystyried yn briodol drwy Gynllun Rheoli cyd-gysylltiedig |
| **6. Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i wneud busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd** | Amcan 12: Galluogi creu swyddi a thwf o fewn y Fwrdeistref drwy hyrwyddo busnesau presennol a denu busnesau a buddsoddiad newydd ar hyd coridor y gamlas |
| **8. Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef** | Amcan 2: Gwella Cynllun Rheoli'r Gamlas yn barhaus trwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd<br>Amcan 3: Sicrhau bod y Gamlas yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel i bawb trwy ddarparu ymyriadau prosiect penodol<br>Amcan 4: Datblygu'r gamlas fel cyrchfan eithriadol yn ei hawl ei hun, sy'n denu mwy o ymwelwyr drwy ddatblygu cynnig hamdden strategol sy'n gwella rôl y gamlas fel cyswllt rhwng atyniadau yn Nhorfaen a thu hwnt<br>Amcan 9: Gwella cyflwr gwerth treftadaeth y gamlas gyfan drwy sicrhau bod y gwaith o'i chadw a'i gwella yn cael ei ystyried a'i rheoli'n briodol<br>Amcan 10: Codi proffil arwyddocâd treftadaeth y gamlas i gefnogi mwy o werthfawrogiad a gwybodaeth drwy ymgysylltu â'r gymuned a rhannu gwybodaeth<br>Amcan 11: Cyflawni'r Weledigaeth o adfer y gamlas fel y gellir teithio arni'n gyfan gwbl i Ganol Tref Cwmbrân trwy ddatblygu achos busnes, sicrhau adnoddau, a chyllid a chreu cyrchfan newydd ar ochr y gamlas |

# Themâu ac amcanion strategol



Mae amcanion Strategaeth y Gamlas wedi'u grwpio o dan themâu strategol sy'n dal gwerthoedd cyfoethog ac amrywiol y gamlas a'r cyfleoedd prosiect maen nhw'n eu cyflwyno. Mae'r themâu hyn wedi'u dewis drwy ymgysylltu â'r cyhoedd a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid ac maen nhw wedi'u cynnal drwy gydol pob un o dri cham y strategaeth.

**Thema Strategol 1: Cynnal a chadw a rheoli cynaliadwy**

***"Ni ddylai' ffaith fod y gamlas ar garreg ein drws wneud i ni ei chymryd yn ganiataol."***

***Dienw, arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd ar y gamlas 2022***

**Amcan 1:** Rheoli ased y gamlas yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy i ddarparu dyfrffordd a llwybr tynnu diogel a gweithredol, gydag effeithiau newid hinsawdd newydd ac argyfwng natur yn cael eu hystyried yn briodol drwy Gynllun Rheoli cyd-gysylltiedig

**Amcan 2:** Gwella Cynllun Rheoli'r Gamlas yn barhaus trwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd

Mae'r gamlas yn strwythur a grëwyd gan ddyn ac mae angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Heb hyn bydd yn dirywio. Mae'r ddyfrffordd a'r llwybr tynnu yn llawn llystyfiant, sydd angen eu rheoli'n ofalus ac yn rheolaidd er mwyn galluogi pobl i fwynhau'r gamlas tra'n galluogi bywyd gwyllt i ffynnu. Wrth i'r gwaith adfer fynd rhagddo i agor y gamlas, bydd y gost o gynnal y gamlas yn cynyddu oherwydd gwaith cynnal a chadw ychwanegol ar y ddyfrffordd ar gyfer cychod yn ogystal â chynnal a chadw'r lociau sy'n gweithio.

Bydd Cynllun Rheoli'r Gamlas yn cael ei ddatblygu i gydbwyso'r gofyniad i gynnal mynediad diogel i bobl a chychod, diogelu cyflwr y nodweddion adeiledig a chydbwyso arwyddocâd ecolegol y gamlas. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i arwain gwaith cynnal a chadw'r gamlas gan y Cyngor a'n partneriaid a'n gwirfoddolwyr.

Mae Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor yn nodi'r uchelgeisiau ehangach i'r Cyngor leihau allyriadau carbon i fod yn Sero Net erbyn 2030 a fydd yn dod ag effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol ar gynnal a chadw'r gamlas. Mae'r effaith y bydd newid hinsawdd yn ei chael ar y gamlas, yn enwedig rheoli dŵr a'r rôl y gall y gamlas a'i hamgylchedd ei chwarae o ran storio carbon yn cael eu hystyried drwy'r Cynllun Gweithredu.

### Thema Strategol 2: Datblygu Cyrchfan, Hamdden a Theithio

***"Gadewch i ni ei gwneud hi'n draddodiad cerdded holl lwybr y gamlas bob blwyddyn!***

***Dienw, arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd ar y gamlas 2022***

**Amcan 3:** Sicrhau bod y Gamlas yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel i bawb trwy ddarparu ymyriadau prosiect penodol.

**Amcan 4:** Datblygu'r gamlas fel cyrchfan eithriadol yn ei hawl ei hun, sy'n denu mwy o ymwelwyr drwy ddatblygu cynnig hamdden strategol sy'n gwella rôl y gamlas fel cyswllt rhwng atyniadau yn Nhorfaen a thu hwnt.

**Amcan 5:** Defnyddio'r gamlas i'r eithaf fel llwybr teithio strategol trwy wella'r seilwaith Teithio Llesol, cynnig cyfleusterau gwell a chynyddu cyfleoedd i bobl ddewis trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer eu taith gyfan neu rywfaint o'u taith.

Fel porth sylweddol i mewn i Dorfaen rhwng Bryste a Chaerdydd, mae gan y gamlas y potensial i fod yn gyrchfan o safon uchel i ymwelwyr ac adnodd hamdden awyr agored. Yn gyrchfan ynddo'i hun, gall y gamlas ddarparu hybiau gweithgaredd, gan greu cysylltiadau oddi ar y ffordd gydag atyniadau a chyrchfannau presennol, gan gynnwys Safle Treftadaeth Ddiwydiannol y Byd Blaenafon, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ffordd Goedwig Cwmcarn, Canol Trefi Pont-y-pŵl, Cwmbrân a Glannau Casnewydd.

Mae coridor y gamlas yn cynnig cyfleoedd unigryw ar gyfer gweithgareddau hamdden, adloniant iach, a theithio cynaliadwy. Nid ar gyfer pobl sy'n mwynhau defnyddio'r llwybr tynnu yn unig yw hwn, ond hefyd i bobl ddefnyddio'r ddyfrffordd ar gyfer cychod, a chwaraeon dŵr eraill.

Heddiw, mae'r llwybr tynnu yn llwybr Teithio Llesol strategol a Hawl tramwy cyhoeddus, sy'n galluogi cerdded a beicio fel dulliau teithio hyfyw ar gyfer teithiau byr bob dydd rhwng cymunedau, safleoedd cyflogaeth a hybiau ymwelwyr.

Yn arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd 2022, pan ofynnwyd pa agweddau ar y gamlas oedd yn bwysig iddyn nhw dywedodd 80% (932 allan o 1164) wrthym ni fod y gamlas yn lle i ymlacio, a dywedodd 73.5% (855 allan o 1164) wrthym fod y gamlas yn lle i ymarfer corff. Dywedodd 20.3% (236 allan o 1164) o bobl wrthym fod y gamlas yn llwybr pwysig i gymudo.

### Thema Strategol 3: Cymuned a Phartneriaethau

***"Y gamlas roddodd fywyd i'n dyffryn ni, mae'n bryd i'r dyffryn roi ei bywyd nôl i'r gamlas"***

***Dienw, arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd ar y gamlas 2022***

**Amcan 6:** Cefnogi dull partneriaeth o weithredu, cyflwyno, cyfathrebu a monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol drwy weithredu fframwaith llywodraethu

**Amcan 7:** Adeiladu a gwella cydlyniant cymunedol ar hyd coridor y gamlas, drwy ymgysylltu â chymunedau amrywiol i gyd-greu cyfleoedd cynhwysol i fwy o bobl gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Strategaeth hon

**Amcan 8:** Meithrin rhwydwaith a rhaglen o Wirfoddolwyr medrus ac ymgysylltiedig ar gyfer y gamlas, sy'n cefnogi camau cynaliadwy o rheoli coridor y gamlas drwy gymryd ymagwedd gydlynol at weithgarwch.

Mae partneriaethau strategol sy'n seiliedig ar gryfderau ac ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned yn allweddol i sicrhau manteision cynaliadwy i gymunedau, yr amgylchedd a'r economi.

Mae partneriaethau effeithiol yn dod â sgiliau ac adnoddau amrywiol at ei gilydd, yn cynyddu hygrededd ar gyfer prosiectau ac yn darparu ystod ehangach o ganlyniadau. Mae dangos gwir ddiddordeb cymunedol yn y gamlas yn hanfodol i gefnogi ceisiadau am gyllid a fydd yn cyflawni'r weledigaeth hirdymor.

Mae ein cymunedau lleol yn adnodd gwerthfawr i'r gamlas. Rydym ni'n elwa o bartneriaethau cymunedol angerddol a rhagweithiol sy'n sicrhau dull llawr gwlad o ddatblygu a chyflawni prosiectau. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Gwirfoddolwyr Camlas Torfaen, Grŵp Camlas Pont 46 i Five Locks, Old Cwmbran Canal Watch a mwy – bydd pob un yn hanfodol er mwyn cyflawni'r Strategaeth. Rydym ni hefyd yn elwa o berthynas waith agos gyda phartneriaid profiadol ym maes gweithredu ac adfer camlesi gan gynnwys Glandŵr Cymru, ac Ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy, Aberhonddu, a'r Fenni. Bydd y partneriaethau gwerthfawr hyn yn hanfodol i gyflawni'r strategaeth, yn enwedig wrth ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau ar gyfer adfer a gweithrediad masnachol hirdymor parhaus y gamlas.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniad mawr y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud. Maent yn chwarae rhan hanfodol ym mhob agwedd ar reoli, adfer, cynnal a chadw a gweithredu'r gamlas. Byddwn yn gweithio gyda gwirfoddolwyr fel elfen allweddol o waith adfer effeithiol, lle nad yw contractau peirianyddol mawr yn elfen hanfodol. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi yn y rôl pan sefydlir

siarter gwirfoddoli (Memorandwm o ddealltwriaeth), cefnogaeth yn y lleoliad, a hyfforddiant addas er mwyn sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan yr holl bartneriaid am eu cyfraniad i'r gamlas.

Amlygodd arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd 2022 fod 36.4% o bobl a ymatebodd (417 o bobl) eisiau mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ymarferol. Dywedodd llawer o bobl fod y gamlas yn cynnig lle i deimlo'n rhan o gymuned a bydd datblygu'r fath 'gymuned' o wirfoddolwyr gweithgar a chyfrannog a phobl â diddordeb yn amcan allweddol ar gyfer y strategaeth hon. Roedd llawer o bobl hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd y gamlas fel lle i wneud ffrindiau a chymdeithasu.

### Thema Strategol 4: Treftadaeth Gydnerth

***"Mae'n em yng nghoron Torfaen"***

***dienw, arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd ar y gamlas 2022***

**Amcan 9:** Gwella cyflwr gwerth treftadaeth y gamlas gyfan drwy sicrhau bod y gwaith o'i chadw a'i gwella yn cael ei ystyried a'i rheoli'n briodol.

**Amcan 10:** Codi proffil arwyddocâd treftadaeth y gamlas i gefnogi mwy o werthfawrogiad a gwybodaeth drwy ymgysylltu â'r gymuned a rhannu gwybodaeth.

Mae treftadaeth yn dod mewn sawl ffurf. Yng nghyd-destun y Strategaeth hon, mae treftadaeth yn cynnwys amgylchedd hanesyddol adeiledig coridor y gamlas, y dreftadaeth naturiol sy'n cynnwys gwerth bywyd gwyllt a bioamrywiaeth y gamlas, a'r dreftadaeth gymdeithasol sy'n cynnwys arwyddocâd diwylliannol y gamlas i bobl Torfaen. Mae gwytnwch yn ymwneud â gallu'r dreftadaeth hon i ymdopi ac adfer ar ôl pwysau a rhwystrau.

Yn wreiddiol yn nodwedd ddiwydiannol a wnaed gan ddyn, mae'r gamlas yn naturiol wedi esblygu'n goridor bywyd gwyllt sy'n ffynnu ac wedi'i chysylltu'n dda. Mae'n un o gynefinoedd naturiol allweddol Torfaen, ac yn gartref i gyfoeth o fywyd anifeiliaid a phlanhigion.

Mae'n dangos ystod eang a diddorol o gynefinoedd ar ei hyd gan gynnwys mannau trefol a gwledig, dŵr cysgodol ac agored, llystyfiant tanddwr a llystyfiant newydd ac ymylon glaswelltog a gwrychoedd ar hyd ei ffiniau. Y tu hwnt i Dorfaen, mae'r gamlas yn nodwedd annatod o fewn rhwydwaith gwlypdiroedd de-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys afon Wysg, nentydd a ffrydiau, gan gysylltu draeniau ac ardaloedd corsiog. Mae ei natur linellol a pharhaus yn caniatáu i rywogaethau symud yn rhydd drwy'r dirwedd, swyddogaeth arbennig o hanfodol mewn lleoliad trefol fel Cwmbrân lle gall ffyrdd a waliau ddarnio'r dirwedd. Mae llawer o rywogaethau'n defnyddio'r gamlas gan gynnwys glas y dorlan, ystlumod, mursennod, a gweision y neidr.

Mae gan y Cyngor Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Cyrff Cyhoeddus o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'. Mae hyn yn dylanwadu ar sut rydym ni'n rheoli'r gamlas a sut y bydd yn cael ei hadfer.

Cafodd y gamlas ei hadeiladu dros 200 mlynedd yn ôl, ac mae hefyd yn dirnod hanesyddol allweddol o fewn Torfaen. Mae ganddo 10 strwythur rhestredig ar ei hyd sy'n eiddo i'r Cyngor, gyda nifer o strwythurau heb eu rhestru hefyd yn dod â chyfraniad cadarnhaol i gymeriad a golwg coridor y gamlas. Mae arwyddocâd lleol a chenedlaethol i'r dreftadaeth adeiledig hon, gan gynnig enghreifftiau o ba mor bell yr aeth ein cyndeidiau i sbarduno diwydiant yn ei flaen yn yr ardal.

Mae'r gamlas yn Ardal Gadwraeth ddynodedig y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod sylw arbennig yn cael ei roi iddi i gadw neu wella cymeriad neu edrychiad yr ardal honno. Mae Cynigion Arfarnu a Rheoli Ardal Cadwraeth Camlas Mynwy ac Aberhonddu (2011) yn ystyried arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol arbennig y gamlas fel ei nodweddion ffisegol o rwydwaith camlesi sydd wedi goroesi a ddatblygwyd 200 mlynedd yn ôl. Mae'r golygfeydd newidiol a'r tirwedd sy'n cyfuno tirwedd wledig a threfol, y nifer o resi loc camlas, pontydd cerrig, traphontydd dŵr, a cherrig milltir, i gyd yn olion diriaethol sy'n mynegi gwerth treftadaeth y gamlas a'r arwyddocâd. O'u hystyried ar y cyd, mae'r asedau treftadaeth pwysig hyn yn helpu i greu ymdeimlad o falchder a lle yng nghoridor y gamlas.

Gan ei bod yn dirnod hanesyddol a naturiol unigryw o fewn y Fwrdeistref, mae'r gamlas wedi chwarae rhan allweddol ym mywydau llawer o bobl. Bydd llawer o'r trigolion yn sôn am eu hatgofion am y gamlas fel plant, sut roedd yn lle i ymlacio a chael hwyl. Mae pobl yn cofio sut oedd y gamlas cyn iddi gael ei sianelu drwy gylfatiau drwy rannau o Gwmbrân. Mae'n bwysig cofnodi a throsglwyddo'r atgofion hyn gan eu bod nhw'n manylu ar hanes cymdeithasol a threftadaeth sy'n gwneud y Cwm yn unigryw. Nid yw'r rhain wedi cael eu dal na'u cofnodi mewn unrhyw ffordd arall ar hyn o bryd.

Dangosodd arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd 2022 fod 92.6% (1079 o bobl) o bobl a ymatebodd yn ystyried 'bywyd gwyllt a natur' fel un o agweddau pwysicaf y gamlas. Dywedodd 71.6% (833 o bobl) o bobl a ymatebodd mai hanes y gamlas oedd un o agweddau pwysicaf y gamlas iddyn nhw. Dywedodd 64.6% (753 o bobl) o bobl hefyd eu bod yn teimlo bod y gamlas yn "rhan o gymeriad Torfaen".

**Thema Strategol 5: Adfer y Gamlas a Theithio i Ganol Tref Cwmbrân**

**Amcan 11:** Cyflawni'r Weledigaeth o adfer y gamlas fel y gellir teithio arni'n gyfan gwbl i Ganol Tref Cwmbrân trwy ddatblygu achos busnes, sicrhau adnoddau, a chyllid a chreu cyrchfan newydd ar ochr y gamlas

**Amcan 12:** Galluogi creu swyddi a thwf o fewn y Fwrdeistref drwy hyrwyddo busnesau presennol a denu busnesau a buddsoddiad newydd ar hyd coridor y gamlas

Gall camlesi fod yn sbardun ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, sy'n cynyddu ffyniant a datgloi datblygiad a buddsoddiad y sector preifat. Mae'r gamlas yn Nhorfaen mewn safle da fel porth deheuol i atyniadau twristiaeth y dyffryn dwyreiniol. Mae'r gwaith o adfer y gamlas, sy'n ymestyn y gallu i deithio i'r de i ganol tref Cwmbrân yn cynnig cyfle strategol mawr i ddarparu buddion economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol sylweddol i gymunedau Torfaen, rhanbarth ehangach de-ddwyrain Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae buddsoddi i sicrhau dyfodol y gamlas yn galluogi twf economaidd o amgylch yr ardaloedd mae'n eu cysylltu felly'n meithrin gwydnwch i economïau lleol. Mae'n cynnig manteision diwylliannol a hamdden i'n cymunedau sy'n cynnwys rhai o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Bydd camlas sydd wedi'i hadfer ac y gellir teithio arni, yn gatalydd i sbarduno adfywiad economaidd a chymdeithasol pellach, gan greu swyddi a thwf nid yn unig o fwy o ymwelwyr a gwariant, ond drwy ddenu buddsoddiad yn y sector preifat hefyd.

Ar hyn o bryd o Fasn Aberhonddu i Fasn Five Locks yn unig y gellir teithio ar y gamlas. O'r pwynt hwn, mae nifer o flociau yn atal teithio i Ganol Tref Cwmbrân, sef Five Locks Rd, Mount Pleasant Road, Maendy Way a Greenhill Road. Am y rheswm hwn, bydd angen ystyried dull cam wrth gam o ddarparu gwaith adfer a llywio. Gellir rhannu'r gamlas yn chwe rhan:


1. Y gamlas y gellir teithio arni: Pont 47 i Fasn Five Locks
2. Five Locks i Mount Pleasant Road
3. Mount Pleasant Road i Greenhill Road
4. Datblygiad Canalside, Canol Tref Cwmbrân
5. Hen Gwmbrân i Dŷ Coch
6. Tŷ Coch i Pentre Lane



## 1: Y Gamlas y gellir teithio arni: Pont 47 i Fasn Five Locks


Wedi'i leoli tua 1 milltir i'r gogledd o Ganol Tref Cwmbrân, Basn Five Locks yw'r terminws deheuol wrth deithio ar y gamlas ar hyn o bryd. Wedi'i leoli mewn ardal breswyl i raddau helaeth, mae'r Basn ar hyn o bryd yn cynnig cyfleusterau cyfyngedig i ddenu ymwelwyr a defnyddwyr y gamlas dros nos. Nid oes llawer o gymhelliad i'r bobl hynny sy'n mwynhau hybiau ymwelwyr presennol a gweithgarwch ar y dŵr ar y gamlas ogleddol i ymestyn eu hymweliad i'r de o Fasn Five Locks.

Mae potensial i wella potensial hamdden ac adloniant y Basn i'w leoli'n fwy cadarnhaol fel cyrchfan i ymwelwyr a defnyddwyr ehangach y gamlas. Fel y terminws presennol, mae'n darparu pwynt naturiol i greu cyrchfan. Bydd cyrchfan sefydledig a bywiog ym Masn Five Locks yn cefnogi ceisiadau am gyllid i ymestyn y gallu i deithio tua'r de.




## 2: Five Locks i Mount Pleasant Road

Y rhan hon o'r gamlas fydd yr ardal gyntaf ar gyfer gwaith adfer mawr sy'n adfer y gallu i deithio arni os bydd astudiaethau'n profi bod digon o ddŵr ar gael i lwyr adfer y gallu i deithio arni. Mae ardal breswyl ar y cyfan sy'n cael ei hamgylchynu a chysylltiadau phosibl ar droed ac ar gefn beic i Barc a Phentref Pontnewydd. Mae'r ardal yn cynnwys rhes o lociau Five Locks, pob un angen eu hadfer a'u trwsio yn ogystal â rhai pyllau cydbwyso. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys bioamrywiaeth pwysig sy'n creu coridor gwyrdd drwy'r ardal hon sy'n ardal drefol i raddau helaeth. Mae sawl pwynt o ddiddordeb treftadaeth ar hyd yr adran hon y gellir eu hyrwyddo'n well i ddenu mwy o ymwelwyr, yn enwedig cychod sy'n aros ym Masn Five Locks.




## 3: Mount Pleasant Road i Greenhill Road

Mae'r rhan yma o'r gamlas yn llwybr teithio allweddol rhwng Basn Five Locks a Chanol Tref Cwmbrân. Mae'n cynnwys tri loc gweddillol a phyllau cydbwyso cyfagos ac mae o werth treftadaeth uchel oherwydd y nodweddion hyn. Ar ôl Mount Pleasant Road, yr ardal hon fydd y ffocws nesaf i'w adfer. Mae'n ffinio gyda rhannau bychain o laswelltir cymharol agored sy'n rhoi teimlad mwy agored iddo mewn mannau na rhannau eraill o'r gamlas drefol. Nid oes fawr o integreiddio'r gamlas â'r dreflun ac, oherwydd y rhan ceuffos ar ôl Mount Pleasant Road, yma, mae'r gamlas yn teimlo'n ynysig. Mae cyfleoedd i wella cysylltiad â'r gamlas drwy well arwyddion a gwaith cynnal a chadw er mwyn gwella cyflwr y gamlas.



# 4: Canalside, Canol Tref Cwmbrân


Mae’r weledigaeth ar gyfer yr Ardal Strategaeth hon yn cyd-fynd â’r cyfeiriad polisi a gyflwynwyd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd (CDLl) (2013) sy’n dyrannu tir i’r gorllewin o Ganol Tref Cwmbrân ar gyfer datblygu ardal drawiadol newydd yng Nghanol y Dref sy’n canolbwyntio ar gyrchfan fywiog ac actif ger y gamlas. Mae hyn yn cefnogi datblygiad defnydd cymysg o ansawdd uchel, gyda’r gamlas wrth ei wraidd, gan ymgorffori byw ar ochr y dŵr, gweithgareddau hamdden, datblygiad masnachol, defnyddiau diwylliannol, a gwelliannau i fioamrywiaeth.

Bydd yr uchelgais a’r cyfleoedd ailddatblygu ar gyfer Canalside yn cael sylw drwy Gynllun Creu Lleoedd Cwmbrân.

Ar hyn o bryd mae’r gamlas yn ased ar wahân sy’n cael ei thanddefnyddio yng Nghanol y Dref. Mae creu cysylltiadau ffisegol a gweledol gwell rhwng y gamlas a Chanol y Dref â’r potensial i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol, a chorfforol sylweddol yn codi ymddangosiad ac apêl y gamlas fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae’r ffaith fod y safle yn agos i Ganol Tref Cwmbrân yn cynnig y cyfle i greu datblygiad defnydd cymysg sy’n ategu’r cynnig manwerthu a hamdden presennol yn y dref a allai ddatblygu diwylliant caffi ac economi gyda’r nos. Bydd y datblygiad yn darparu terminws deheuol wrth deithio ar y gamlas a chyrchfan o ansawdd uchel i drigolion, ymwelwyr â Chanol y Dref a defnyddwyr coridor y gamlas. Wrth adfer, neu heb adfer y gallu i deithio ar y gamlas yn gyfan gwbl, bydd atyniad glan y gamlas a gynhelir yn dda yn dal i ychwanegu gwerth enfawr i ddatblygiad ar ochr y gamlas.

Bydd Cynllun Creu Lleoedd newydd ar gyfer Canol Tref Cwmbrân yn nodi’r datblygiad hwn ar ochr y gamlas fel Ardal Ymyrraeth allweddol gan dynnu sylw at gyfleoedd prosiect a fydd yn ceisio ei integreiddio’n well â Chanol Tref Cwmbrân. Mae’n hanfodol bod cyflawni’r Strategaeth hon yn cyd-fynd â’r Strategaeth Creu Lleoedd ar ôl cytuno arni.


Wrth fwrw ymlaen â’r gwaith o ddarparu hyn bydd angen partneriaid a buddsoddiad datblygu yn y sector preifat. Yn yr un modd, bydd angen gweithio’n agos gyda pherchnogion Canol Tref Cwmbrân.



# 5: Hen Gwmbrân i Dŷ Coch

Mae'r adran hon yn cysylltu Canol Cwmbrân â Thŷ Coch. Dyma'r rhan amlwg gyntaf ar ôl ceuffos hir y gamlas sy'n rhedeg wrth ochr Cwmbran Drive. Mae'r rhan yma o gamlas yn cael ei werthfawrogi at ddibenion hamdden gan gynnwys pysgota a gwylio bywyd gwyllt. Mae'n pasio dros Nant Dowlais gan gynnig cyswllt da ar gyfer bywyd gwyllt y gwlypdir. Mae'r llwybr tynnu yn cael ei ddefnyddio'n dda gan drigolion ac mae'n llwybr Teithio Llesol pwysig. O fewn cwmpas y strategaeth hon, nid oes gwaith adfer mawr i adfer y gallu i deithio drwy adrannau ceuffos wedi'u cynllunio yma. Bydd cyfleoedd yn canolbwyntio ar wella cyflwr a chynnal a chadw'r gamlas, yn ogystal â gwella ei swyddogaeth fel llwybr Teithio Llesol i'r holl ddefnyddwyr. Mae potensial i ddatblygu prosiectau bach i ddod â chychod bach i'r gamlas (fel cwch teithiau, canŵs, a chychod rhwyfo) i godi ymwybyddiaeth o'r gamlas ac i ddatblygu ei chynnig hamdden.






## 6: Tŷ Coch i ychydig i’r de o Pentre Lane (ffin Cyngor Dinas Casnewydd)

Fel rhan fwyaf deheuol o’r gamlas sy’n eiddo i’r Cyngor, mae’r adran hon yn yr ardal fwyaf gwledig ac yn cynnwys safle adfer Tŷ Coch sy’n cael ei brydlesu ar hyn o bryd i Ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy, Aberhonddu, a’r Fenni. Mae nodweddion y gamlas yma yn dangos oedran, arddull, a deunyddiau sy’n nodweddiadol o goridor y Gamlas; mae llawer o’r strwythurau mwy fel y pontydd yn adeiladau rhestredig. Gallai rheoli’r llinell goed a’r gwrychoedd yn sensitif ar hyd y llwybr tynnu yma gyflwyno cyfle da i fanteisio i’r eithaf ar yr adran hon fel man tawel, gwledig ar gyfer lles a bywyd gwyllt. Mae safle adfer Tŷ Coch yn cynnig gwerth treftadaeth sylweddol gan fod y gamlas a’r lociau wedi’u hadfer ac yn enghraifft o’r hyn y gellir ei gyflawni ym meysydd gweithredu strategaeth eraill. Mae’r cyfleoedd yma yn cynnwys datblygu safle’r Adferiad fel lleoliad i ddysgu sgiliau treftadaeth arbenigol a fydd yn cefnogi adfer y darnau gogleddol. Mae hefyd yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu cymunedol sy’n codi ymwybyddiaeth o’r gamlas ac yn manteisio ar y lleoliad unigryw hwn yn yr adran sy’n eiddo i’r Cyngor.





# Cyflwyno'r Strategaeth: Y Camau




## Cam 1 2024-2025 Adeiladu'r Sylfeini

Yn ystod Cam 1, bydd y gamlas fordwyol yn cynnwys Basn Five Locks yn cael ei ddatblygu i ddenu mwy o ymwelwyr ac annog mwy o ymwelwyr a gweithgareddau ar y dŵr ymhellach i'r de, tra'n cefnogi momentwm i'w adfer. Tasg hanfodol a fydd yn sail i holl weithgarwch adfer yn y dyfodol fydd canfod a oes cyflenwad dŵr cynaliadwy ar gyfer y gamlas sy'n galluogi adfer a llywio i Ganol Tref Cwmbrân. Mae datblygu a chyflawni camau 2 a 3 yn dibynnu ar y canlyniad hwn. Bydd gwaith yn cynnwys adolygu a chasglu data gan gynnwys asesiadau cyflwr treftadaeth adeiledig a naturiol y gamlas. Ochr yn ochr â hyn, mae angen adolygiad o'r cynigion dylunio presennol, arolygon a chostau gofynnol sy'n darparu gwaith adfer a llywio i Ganol Tref Cwmbrân. Mae'r wybodaeth hon yn allweddol i lywio dyluniad ymyriadau prosiect adfer yn y dyfodol a cheisiadau ariannu yng ngham 2.

Mae'r dŵr sydd ar gael yn risg strategol y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn parhau i ymchwilio iddo a'i fonitro. Os na fydd digon o gyflenwad dŵr ar gael i gefnogi dilyniant i gamau 2 a 3, bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu a bydd y canlyniadau diwygiedig yn cael eu nodi. Mae llawer o fanteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol y gellir eu cyflawni ar y gamlas heb weithredu gwaith adfer a llywio. Bydd prosiectau cymunedol ar raddfa fach yn cael eu datblygu a blaenoriaethau sy'n gwella hyd cyfan y gamlas o fewn perchnogaeth y Cyngor.

**Ar ddiwedd y cyfnod hwn byddwn yn gallu dangos y canlynol:**

- mae cyflenwad dŵr cynaliadwy, neu nad oes cyflenwad dŵr cynaliadwy i gefnogi'r cam o adfer y gamlas.
- Mae'r rhan y gellir teithio arni ar y gamlas sy'n eiddo i'r Cyngor yn denu mwy i'w ddefnyddio.
- Mae Basn Five Locks yn cael ei ddatblygu i ddenu mwy o ymwelwyr ar y ddyfrffordd a'r llwybr tynnu.
- Datblygu dealltwriaeth glir o'r gofynion refeniw ac adnoddau cyfalaf ar gyfer cyflawni cyfnodau 2 a 3 gyda strategaeth codi arian i alluogi gweithgareddau.

Bydd Cynllun Creu Lleoedd Cwmbrân sy'n rhedeg ar yr un pryd, yn cynnig gweithgarwch mewn cyrchfan newydd yn Canalside a hynny fel ffrwd waith ar wahân, sydd wedi ei rhyng-gysylltu â'r Strategaeth hon.

## Cam 2 2026-2029 Symud Tuag At Adfer

Gan adeiladu ar y momentwm ar hyn a ddeellir erbyn hyn yn dilyn cam 1, bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar ddatgloi'r gallu i deithio tua'r de tuag at ganol tref Cwmbrân. Er mwyn datgloi'r gallu i deithio, bydd angen nodi partneriaid a buddsoddwyr yn y sector preifat a bydd angen tîm prosiect â llu o adnoddau i gyflawni hyn. Er mwyn symud ymlaen â'r cynigion adfer, mae'r Strategaeth yn nodi chwe rhan o'r gamlas fel sail ar gyfer dull cam wrth gam o adfer y gallu i deithio i Ganol Tref Cwmbrân. Gofynnir am arian i ddarparu rheolaeth y rhaglen, arolygon, caniatâd a gwaith angenrheidiol sydd ei angen i adfer y gallu i deithio o Five Locks Road i Mount Pleasant Road (adran 2 o'r gamlas), er y bydd cyfleoedd i ymestyn llywio drwy adrannau 3 a 4 yn cael eu cymryd pe bai'r cyfle cyllido cywir yn ymddangos. Yn ogystal â chanolbwyntio ar adfer, bydd ymyriadau prosiect fydd o fudd i'r gamlas gyfan sydd yn eiddo i'r Cyngor yn parhau i gael eu gweithredu yn ystod y cyfnod hwn.

**Ar ddiwedd y cyfnod hwn byddwn yn gallu dangos y canlynol:**

- Mae'r gwaith i adfer y gallu i deithio i adran 2 o'r gamlas o Five Locks Road i Mount Pleasant Road wedi sicrhau cyllid ac wedi'u darparu.

- Bydd cynllun clir wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ariannu'r gwaith o reoli a darparu gwaith adfer i gyrchfan newydd yng nghanol tref Cwmbrân.

## Cam 3 2029-2034 Cyrraedd Canol y Dref

Mae'r camau gweithredu yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar gwblhau'r pecynnau gwaith adfer diwethaf er mwyn caniatáu i gychod gyrraedd Canol y Dref. Bydd gweithgarwch yn cysylltu â datblygiad cynhwysfawr o ddefnydd cymysg yn unol â Chynllun Creu Lleoedd Cwmbrân a Chynllun Datblygu Lleol, i greu cyrchfan fywiog newydd i'r gorllewin o ganol tref Cwmbrân.

Nid yw ymestyn y gallu i deithio y tu hwnt i Ganol y Dref o fewn cwmpas nac amserlen y strategaeth hon er y bydd gweithgarwch partneriaeth i ddatblygu'r camau nesaf hyn yn digwydd a fydd yn cynnwys datblygu potensial safle Adfer Tŷ Coch fel cyrchfan nesaf y gamlas.




# Llywodraethu a Rheoli

Bydd yr amcanion a nodir yn cael eu bodloni dros y deng mlynedd nesaf a thu hwnt trwy weithredu'r ystod eang o weithgareddau a phrosiectau a gyflwynir o fewn y Strategaeth hon a'r Cynllun Gweithredu. Bydd gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau, awdurdodau, buddsoddwyr preifat, a grwpiau cymunedol yn allweddol i'w cyflwyno'n llwyddiannus.

Bydd angen dull ar y cyd i'r rhan fwyaf o gamau gweithredu tra bydd camau eraill yn disgyn i un corff i'w weithredu. Er y gall prosiectau sefyll ar eu pen eu hunain, dylai pob un gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Camlas Torfaen. Bydd prosiectau'n cael eu rheoli a'u monitro er mwyn sicrhau rheolaeth a darparu safonau. Bydd risg, yn cael ei reoli yn unol â phrosesau Rheoli Risg y Cyngor.

Mae strwythur rheoli a llywodraethu i gyflawni hyn wedi'i nodi isod.




### Cydlynydd y Gamlas

Mae Cydlynydd y Gamlas yn gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu rhwng yr amrywiol bartneriaid yn destun cydlynu a pharhad, hyrwyddo'r gamlas a chysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar faterion ehangach sy'n ymwneud â chamlesi ledled y wlad.

### Grŵp Partneriaeth Adfywio Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Rôl y Grŵp Partneriaeth Adfywio yw darparu cyswllt strategol rhwng pedwar perchennog Camlas Mynwy ac Aberhonddu (Glandŵr Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili), rhanddeiliaid allweddol (yn cynnwys Ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy, Y Fenni ac Aberhonddu), a'r Awdurdodau sydd â buddiant yn y gamlas (Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Sir Powys, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'r Bartneriaeth yn darparu fforwm i rannu diweddariadau a gwybodaeth, datblygu cyfleoedd cyllido ar y cyd, cydlynu gwaith cynnal a chadw ar draws y ffiniau perchnogaeth, a rheoli mentrau adfer ar draws y ffiniau perchnogaeth. Bydd Partneriaeth Strategol Camlas Torfaen yn cyfleu'r diweddaraf i'r Grŵp o ran cynnydd yn Nhorfaen, a bydd yn darparu'r cyswllt strategol o weithredu lleol gyda mentrau ehangach.

### Partneriaeth Strategol Camlas Torfaen

Rôl Partneriaeth Strategol Torfaen yw goruchwylio a monitro gweithredoedd Gweithgorau Thematig Camlas Torfaen a'u cymeradwyo. Bydd y Bartneriaeth yn ystyried y mater o ddŵr sydd ar gael a'i effaith ar y gallu i gyflawni camau gweithredu, yn enwedig y rhai hynny dan Thema 5, ac yn mynd ati i reoli hynny. Bydd gan y Bartneriaeth gynrychiolwyr o blith Aelodau Etholedig Cynghorau Cymunedau a Wardiau, ac Uwch Swyddogion y sefydliadau sy'n bartneriaid a byddant yn cyfarfod bob chwarter. C Mae aelodaeth graidd y bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Cymuned Cwmbrân, Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl, Glandŵr Cymru, ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy, Aberhonddu a'r Fenni, Cymdeithas Wirfoddol Torfaen, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, a CADW. Bydd y Bartneriaeth yn gweithredu fel hyrwyddwyr y gamlas a llysgenhadon o ran gweithgareddau'r Gweithgorau.

Bydd y bartneriaeth yn cael ei gwasanaethu gan gadeiryddion priodol pob grŵp thematig a grŵp Gweithredwyr y Gamlas a fydd yn paratoi adroddiadau ar ddiweddariadau yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd dros y chwarter blaenorol, cynigion yn y dyfodol a nodi unrhyw faterion i'w hystyried ar gyfer pob un o'r meysydd thematig. Bydd y Bartneriaeth yn monitro gweithgarwch, yn gosod blaenoriaethau ac yn cytuno ar y rhaglen waith flynyddol ar gyfer Gweithgorau Thematig Camlas Torfaen.

**Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas**

Bydd aelodau'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor sydd ag arbenigedd technegol a chyfrifoldeb am reoli a chynnal y gamlas. Byddant yn cyfarfod bob chwarter i adolygu a mynd i'r afael â materion gweithredol sy'n dod i'r amlwg ar y gamlas gan gynnwys ecoleg y dŵr sydd ar gael, draenio, mynediad, a chynnal a chadw. Bydd y grŵp yn gyfrifol am gamau gweithredu sy'n bodloni amcanion Thema 1 "Cynnal a Rheoli Cynaliadwy". O fewn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar gydlynu'r gwaith o reoli asedau'r gamlas i ddarparu dyfrffordd a llwybr halio diogel a gweithredol, yn ogystal â rheoli risg. Bydd cofnodion y Grŵp yn cael eu rhannu gyda'r Gweithgorau Thematig i sicrhau bod yna ddull cydlynol o gyflawni gweithrediadau. Bydd crynodeb o'r cynnydd ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Grŵp yn cael eu cynnwys mewn adroddiad diweddaru gan y Cadeirydd i Bartneriaeth Strategol Camlas Torfaen.

**Gweithgorau Thematig**

Bydd Gweithgorau Thematig sy'n gysylltiedig â chyflawni pob un o'r themâu strategol yn cael eu sefydlu. Bydd y Grwpiau hyn yn cyflawni amcanion a chynlluniau gweithredu pob thema gan sicrhau bod gan bob grŵp berchnogaeth ar ei weithredoedd a'i gyfrifoldebau rheoli a'i fod yn eu deall am gyfnod y Strategaeth. Bydd aelodau pob grŵp yn cynnwys swyddogion o'r sefydliadau sy'n bartneriaid, yn enwedig y rhai sydd ag arbenigedd a chyfrifoldebau'n ymwneud â thema/themâu strategol y Grŵp dan sylw. Caniateir mynediad agored drwy broses ymgeisio sy'n caniatáu i grwpiau neu unigolion sydd â diddordeb gymryd rhan mewn modd cadarnhaol.

Mae'r Strategaeth yn cyflwyno camau gweithredu sy'n seiliedig ar bum thema. Mae strwythur y Gweithgor yn adlewyrchu'r themâu a'u Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig.

Dyma'r Gweithgorau:

<u>1. Datblygu Cyrchfan</u>

Bydd y grŵp hwn yn cymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu sy'n bodloni amcanion o dan "Thema 2 Datblygu Cyrchfan, Hamdden a Theithio" a "Thema 5 Sicrhau Adfer a Theithio i Ganol y Dref". O fewn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar sicrhau bod y gamlas yn hygyrch i bawb a'i gwella fel llwybr teithio strategol, datblygu'r gamlas fel cyrchfan sy'n denu ymwelwyr, cyflawni'r nod o adfer y gallu i deithio'n llwyr ar y gamlas a gwireddu potensial economaidd y ddyfrffordd. Bydd aelodaeth graidd y grŵp yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Glandŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy, Aberhonddu a'r Fenni, Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, a Fforwm Mynediad Torfaen.

<u>2. Cymunedau a Phartneriaeth</u>

Bydd y grŵp hwn yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r amcanion o dan "Thema 3 Cymuned a Phartneriaeth". Yn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi gweithredu gwirfoddol a chymunedol i wella'r gamlas ac arwain ar gefnogi dull partneriaeth o ddatblygu a chyflawni prosiectau. Bydd aelodaeth graidd y grŵp yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cymdeithas Wirfoddol Torfaen, Gwirfoddolwyr Camlas Torfaen, Grŵp Camlas Pont 46 i Five Locks, Ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy, Aberhonddu a'r Fenni, a'r Glandŵr Cymru.

<u>3. Treftadaeth Gydnerth</u>

Bydd y grŵp hwn yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r amcanion o dan "Thema 4 Treftadaeth Gydnerth". O fewn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ynghylch y gamlas a diogelu a gwella cyflwr treftadaeth naturiol a diwylliannol y gamlas. Bydd aelodaeth graidd y grŵp yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Amgueddfa Torfaen a CADW.

Bydd Gweithgorau yn cyfarfod bob chwarter a bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno gan Gadeirydd pob Grŵp i Bartneriaeth Camlas Strategol Torfaen. Bydd grwpiau'n adolygu eu Cynlluniau Gweithredu yn flynyddol, ynghyd ag adolygu unrhyw ganlyniadau monitro. Er mwyn cynorthwyo'r integreiddio rhwng y Grwpiau, bydd y Cadeiryddion yn cyfarfod yn flynyddol i drafod blaen gynlluniau eu Grŵp ar y cyd a chanfod y potensial am gyfleoedd i gydweithio. Bydd cofnodion yr holl weithgorau yn cael eu dosbarthu rhwng y grwpiau a Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas i sicrhau bod y gamlas yn cael ei rheoli mewn modd synergaidd.

<u>Fforwm Ymgysylltu â'r Cyhoedd</u>

Pwrpas y fforwm ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhelir yn chwarterol yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am y camau a gyflawnir gan y Gweithgorau Thematig a rhoi cyfle i ofyn cwestiynau, rhoi adborth a chodi materion. Trefnir y fforwm blynyddol gan y 'Gweithgor Thematig Cymunedau a Phartneriaethau' a gall ddigwydd yn rhithiol neu'n wyneb yn wyneb. Cynhelir sesiwn friffio i'r

Aelodau cyn pob Fforwm Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Bydd canlyniadau'r Fforwm yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Gweithgor Thematig 'Cymunedau a Phartneriaethau' a gyflwynir i Bartneriaid Strategol Camlas Torfaen.

# Geirfa




**Teithio Llesol** – Mae'n golygu cerdded a beicio, gan gynnwys defnyddio sgwteri symudedd a chymhorthion, ar gyfer teithiau bob dydd. Mae hyn yn cynnwys teithiau i'r ysgol, i weithio, i'r siopau neu i gael mynediad at wasanaethau, fel canolfannau iechyd neu hamdden.

**Treftadaeth adeiledig** – strwythurau wedi'u wneud gan ddyn ag arwyddocâd hanesyddol lleol a chenedlaethol.

**Achos busnes** - rhoi cyfiawnhad dros ymgymryd â phrosiect. Mae'n gwerthuso budd, cost a risg opsiynau amgen ac yn rhoi rhesymeg dros yr ateb a ffefrir. Fe'i defnyddir i ddenu cyllid buddsoddwyr.

**Coridor y gamlas** – y rhan o'r gamlas sy'n cynnwys yr holl nodweddion camlas cysylltiedig gan gynnwys y ddyfrffordd, llwybr tynnu, a gwrychoedd ffiniau a ffensys ar y ddwy ochr.

**Cylfat** - strwythur sy'n sianelu dŵr heibio rhwystr. Fel arfer wedi'i wreiddio i gael ei amgylchynu gan bridd, gellir gwneud cylfat o bibell, concrit wedi'i atgyfnerthu, neu ddeunydd arall. Mae adran camlas gylfat yn golygu bod dŵr y gamlas wedi cael ei sianelu drwy gylfat.

**Adeilad/strwythur rhestredig** - adeilad sydd wedi ei ddynodi fel un o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Cyfyngir hawliau perchennog i ddelio â'r eiddo yn dibynnu ar bwysigrwydd y rhestru.

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** - yn nodi cynnig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn eu hardal yn y dyfodol.

**Treftadaeth naturiol** – nodweddion ecolegol a naturiol brodorol gydag arwyddocâd lleol a chenedlaethol.

**Cynllun Creu Lleoedd** – Cynllun ar gyfer ardal sy'n cynnwys gweithio ar y cyd ar draws sectorau a disgyblaethau i ystyried yn gynhwysfawr ddatblygiad lleoedd unigryw a bywiog yn y dyfodol.

**Treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol** – mae hyn yn cynnwys straeon ac atgofion pobl.

**Llwybr halio** – y llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd y gamlas.

**Dyfrffordd** – y rhan o'r gamlas sy'n cynnwys dŵr.

# Cynllun Gweithredu Camlas Torfaen



Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno camau gweithredu i gyflawni'r amcanion ym mhob Cam. Mae'r broses o gyflawni rhai camau yn ddibynnol ar gyllid ychwanegol a sicrhau adnoddau sy'n cael eu nodi.

Mae'r cynllun gweithredu yn 'ddogfen fyw' a fydd yn cael ei monitro a'i diweddaru yn ystod cylch bywyd y strategaeth.  Bydd yr adolygiad a'r diweddariad cyntaf yn digwydd mis Tachwedd - Rhagfyr 2024.



| CAM 1 (2024-2026) Adeiladu'r Sylfeini | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Partneriaid** | **Dibyniaethau** | **Adran/au Perthnasol o'r Gamlas** | **Thema** |
| **Amcan 1: Rheoli ased y gamlas yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy i ddarparu dyfrffordd a llwybr tynnu diogel a gweithredol, gydag effeithiau newid hinsawdd newydd ac argyfwng natur yn cael eu hystyried yn briodol drwy gynllun rheoli cyd-gysylltiedig** | | | | | |
| Sefydlu'r "Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas" (i'w fynychu gan Swyddogion gweithredol TCBC allweddol) i gwrdd bob chwarter i adolygu a mynd i'r afael â materion gweithredol sy'n dod i'r amlwg ar y gamlas i wella cydweithio ar draws y timoedd erbyn Gorffennaf 2024. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| Datblygu Cynllun Rheoli'r Gamlas sy'n ystyried effeithiau hinsawdd a natur a chytuno ar feini prawf monitro erbyn Gorffennaf 2024. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| Cytuno ar ddull cynnal a chadw ar y cyd gyda Glandŵr Cymru i ddarparu effeithlonrwydd ar gynnal a chadw'r gamlas y gellir teithio arni erbyn Awst 2024. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | CRT | Ariannu | 1 | |
| Ymgymryd â monitro cyflwr effeithiol a rheoli risg y ddyfrffordd, yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, ar gyfer y llwybr tynnu ac asedau adeiledig. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | CRT | Dim | 1-6 | |
| Datblygu ffurflen adrodd 'Camlesi, Afonydd a Cheuffosydd' Galw Torfaen i gasglu data mwy ystyrlon am faterion yr adroddwyd amdanynt ar y gamlas er mwyn cynyddu dealltwriaeth a thargedu camau gweithredu erbyn Rhagfyr 2024. | Cydlynydd Camlas CBST | Grŵp Gweithrediadau CBST | Dim | 1-6 | |
| Sicrhau 10 bod gwirfoddolwr i gefnogi cynnal a chadw asedau cynaliadwy a chodi arian. | Cydlynydd Camlas CBST | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 2: Gwella Cynllun Rheoli'r Gamlas yn barhaus trwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd** | | | | | |
| Gosod offer monitro erbyn Rhagfyr 2024 sy'n cefnogi mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut mae'r gamlas yn cael ei defnyddio gan alluogi rheoli a chynnal a chadw gweithredol ac effeithiol. | Cydlynydd Camlas CBST | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 3: Sicrhau bod y Gamlas yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel i bawb trwy ddarparu ymyriadau prosiect penodol** | | | | | |
| Gweithio gyda busnesau, partneriaid, a swyddogion i osod 10 eitem o ddodrefn stryd camlas newydd neu amnewid, wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar gyflwr dodrefn stryd ar hyd y gamlas. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | Ariannu | 1-6 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau cyllid i roi wyneb newydd ac ehangu'r llwybr halio lle nodwyd ei fod yn flaenoriaeth. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | Ariannu | 1-6 | |
| Cefnogi 10 o wirfoddolwyr cymunedol i ymgymryd â chasglu sbwriel camlas fel rhan o Strategaeth Sbwriel a thipio Anghyfreithlon y Cyngor. | Swyddog Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon TCBC | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen | Ariannu | 1-6 | |
| Llunio ymgyrch addysg i leihau sbwriel a baw ci ar y llwybr halio erbyn mis Rhagfyr 2025. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | Cadwch Gymru'n Daclus<br>Cyfathrebu TCBC | Ariannu | 1-6 | |
| Nodi mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a darparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth erbyn mis Rhagfyr 2024. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Heddlu Gwent | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 4: Datblygu'r gamlas fel cyrchfan eithriadol yn ei hawl ei hun, sy'n denu mwy o ymwelwyr drwy ddatblygu cynnig hamdden strategol sy'n gwella rôl y gamlas fel cyswllt rhwng atyniadau yn Nhorfaen a thu hwnt** | | | | | |
| Erbyn mis Rhagfyr 2025, cyflwynou ymgyrch farchnata i hyrwyddo'r gamlas fel man i ymweld ag ef. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Cymdeithas Twristiaeth Torfaen | Ariannu | 1-6 | |
| Datblygu cynllun i hyrwyddo'r gamlas fel cyrchfan allweddol sy'n cysylltu atyniadau allweddol drwy'r fwrdeistref, a chyflawni canlyniadau Strategaeth Cyrchfan Torfaen. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Cymdeithas Twristiaeth Torfaen | | 1-6 | |
| Cefnogi'r Glandŵr Cymru i hyrwyddo hybiau allweddol ar y gamlas yn Llan-ffwyst a Gofilon a'u cysylltiadau â Safle Treftadaeth y Byd a Chanol Tref Blaenafon. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | | | |
| Datblygu cysylltiadau rhwng y gamlas a chanol tref Pont-y-pŵl trwy Barc a Gardd gofrestredig Pont-y-pŵl i gefnogi buddsoddiad Ffyniant Bro a blaenoriaethau adfywio eraill yng nghynllun Creu Lleoedd Pont-y-pŵl. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Cyfeillion Tref Pont-y-pŵl<br>Cymdeithas Twristiaeth Torfaen | | | |
| Integreiddio cyfleoedd i'r gamlas gael ei sefydlu ym Mwrdd Tref Cwmbrân fel rhan o 'gynllun tymor hir ar gyfer trefi' Llywodraeth y DU yn ystod gwanwyn a haf 2024. | Tîm Adfywio Strategol CBST | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gosod 3 nodwedd celf gymunedol i wella'r ymdeimlad o le i gymunedau lleol. | Cydlynydd Camlas CBST | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan<br>Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange<br>Coleg Gwent | Ariannu | 1-6 | |
| Cwblhau'r uwch gynllun erbyn mis Gorffennaf 2024 i lywio'r gwaith o ddatblygu Basn Five Locks fel hwb cymunedol ar y gamlas ac i ymwelwyr. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Tîm Adfywio Strategol CBST | Ariannu | 1 | |
| Rhoi prosiectau a nodwyd yn yr Uwch gynllun Five Locks y cytunwyd arno ar waith: prosiectau posibl yn cynnwys gosod pwynt Elsan, ystafell toiled/cawod newydd, gwelliannau i angorfeydd, arwyddion gwell, mwy o fannau eistedd, a phwyntiau gwefru cerbydau trydan erbyn mis Rhagfyr 2025. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan<br>Tîm Adfywio Strategol CBST<br>Tîm Cyllid Allanol TCBC<br>Partneriaid ariannu | Ariannu | 1 | |
| Erbyn Gorffennaf 2024, datblygu brand ar gyfer cyrchfan y Gamlas a gaiff ei ddefnyddio ym mhob cyfrwng cymdeithasol/print/llenyddiaeth/dodrefn/arddangosfeydd stryd ac ati. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | Dim | 1-6 | |
| Datblygu cyfleoedd gyda 3 chwmni llogi cychod fydd yn arwain at gynnydd yn nifer eu cwsmeriaid sy'n ymweld â'r rhan o'r gamlas sydd yn eiddo i Dorfaen. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | Ymgysylltu â chwmnïau | 1 | |
| Ailosod yr holl blaciau rhif pont camlas coll yn rhan o'r gamlas sydd yn eiddo i Dorfaen erbyn mis Rhagfyr 2024. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | MBACT | Ariannu | 1-6 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 5: Defnyddio'r gamlas i'r eithaf fel llwybr teithio strategol trwy wella'r seilwaith teithio llesol, cynnig cyfleusterau gwell, a chynyddu cyfleoedd i bobl ddewis trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer eu taith gyfan neu rywfaint o'u taith** | | | | | |
| Gwella cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau ar 2 bwynt mynediad allweddol ac mewn meysydd parcio cyhoeddus ar y gamlas ac yn gyfagos iddi. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | Dim | 1-6 | |
| Datblygu a hyrwyddo llwybr cerdded i gysylltu Basn Pont-y-moel gyda Chanol Tref Pont-y-pŵl, gan fanteisio ar y gwelliannau newydd yng nghanol tref y Gronfa Ffyniant Bro. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Tîm Adfywio Strategol CBST<br>Teithio Llesol CBST<br>CRT | Ariannu | Pont-y-moel | |
| Hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio presennol sy'n cysylltu'r gamlas â Llwybr Beicio 49 Sustrans Pont-y-pŵl i Flaenafon er mwyn annog nifer yr ymwelwyr drwy Ganol Tref Pont-y-pŵl a llwybrau cerdded presennol eraill i Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | Tîm Adfywio Strategol CBST<br>Teithio Llesol CBST<br>CRT | Ariannu | Pont-y-moel a'r gogledd | |
| Hyrwyddo argaeledd cyfleusterau lleol (siopau, toiledau, meddygon ac ati) i bobl sy'n ymweld ar gwch mewn ardaloedd allweddol gan gynnwys Basn Pont-y-moel a Five Locks (a mannau angori rhwng) drwy ddarparu'r wybodaeth wedi'i diweddaru i gwmnïau llogi cychod a gwella cyfeirbwyntiau. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | | Pont-y-moel 1-6 | |
| **Amcan 6: Cefnogi dull partneriaeth o weithredu, cyflwyno, cyfathrebu a monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol drwy weithredu fframwaith llywodraethu** | | | | | |
| Sefydlu'r strwythur llywodraethu gydag atodlenni cyfarfodydd yn cael eu paratoi a'u rhannu flwyddyn ymlaen llaw. | Cydlynydd Camlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| Datblygu a diweddaru Cylch Gorchwyl erbyn Ionawr 2024 i gefnogi'r Strwythur Llywodraethu i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau clir a mecanweithiau adborth. | Cydlynydd Camlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| Paratoi a gweithredu Cynllun Cyfathrebu erbyn Ionawr 2024 i gytuno ar ddull cyfathrebu ar y cyd o gyfathrebu gyda phartneriaid allweddol a'r cyhoedd. | Gweithgor Thematig: Cymunedau a Phartneriaeth | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 7: Adeiladu a gwella cydlyniant cymunedol ar hyd coridor y gamlas, drwy ymgysylltu â chymunedau amrywiol i gyd-greu cyfleoedd cynhwysol i fwy o bobl gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Strategaeth hon** | | | | | |
| Sefydlu rhaglen flynyddol o sesiynau a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol a sicrhau bod y rhain yn cael eu hysbysebu ar wefan gorfforaethol TCBC a Cysylltu Torfaen a thrwy gyfryngau cymdeithasol a gwefannau partner. | Gweithgor Thematig: Cymunedau a Phartneriaeth | Grŵp Gweithrediadau CBST | Ariannu | 1-6 | |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 8: Meithrin rhwydwaith o Wirfoddolwyr medrus sy'n ymgysylltu, a rhaglen waith sy'n cefnogi rheoli coridor y gamlas mewn modd cynaliadwy drwy gymryd ymagwedd gydgysylltiedig tuag at weithgarwch** | | | | | |
| Sefydlu Rhaglen Gwirfoddolwyr Camlas erbyn mis Medi 2024 i nodi pa dasgau y gall gwirfoddolwyr ymgymryd â nhw gan dynnu sylw at ofynion hyfforddiant, ystyriaethau iechyd a diogelwch, offer, a gofynion cyfleusterau ar gyfer gwirfoddolwyr ac i nodi gofynion ariannu. | Gweithgor Thematig: Cymunedau a Phartneriaeth | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen<br>MBACT | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 9: Gwella cyflwr gwerth treftadaeth y gamlas gyfan drwy sicrhau bod y gwaith o'i chadw a'i gwella yn cael ei ystyried a'i rheoli'n briodol** | | | | | |
| Erbyn mis Rhagfyr 2024, creu cofrestr asedau treftadaeth adeiledig i flaenoriaethu atgyweiriadau ar gyfer strwythurau adeiledig ar y gamlas ac i nodi cyfleoedd i gymryd rhan yn y gymuned. | Gweithgor Thematig: Treftadaeth Gydnerth | Cadw, NLHF, CRT, MBACT | Ariannu | 1-6 | |
| Cynnal arolwg ecolegol llawn o'r gamlas (adrannau y gellir teithio arni, a'r adrannau sy'n weddill) erbyn mis Rhagfyr 2024 i gasglu data sylfaenol ar gyfer bioamrywiaeth o fewn y sianel ac ar hyd coridor y gamlas i lywio rheolaeth barhaus ac i lywio dichonoldeb adfer/ llywio a gwaith dylunio yn y dyfodol. | Gweithgor Thematig: Treftadaeth Gydnerth | | Ariannu | 1-6 | |
| Trefnu diwrnodau 'Torri Ffromlys' gwirfoddol i daclo'r Ffromlys ymledol o gamlas Torfaen. | Gweithgor Thematig: Treftadaeth Gydnerth | Cadwch Gymru'n Daclus | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 10: Codi proffil arwyddocâd treftadaeth y gamlas i gefnogi mwy o werthfawrogiad a gwybodaeth drwy ymgysylltu â'r gymuned a rhannu gwybodaeth** | | | | | |
| Datblygu a gosod llwybr hanes a lles lleol ar lwybr y gamlas. | Pont 46 i Grŵp Camlas Five Locks | Grŵp Gweithrediadau CBST | Ariannu | 1-6 | |
| Cysylltu â 3 ysgol o fewn pellter cerdded o'r gamlas er mwyn datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r gamlas i gefnogi'r cwricwlwm. | Gweithgor Thematig: Cymunedau a Phartneriaeth | | Ymgysylltu ag ysgolion | 1-6 | |
| Datblygu a chyflwyno hyfforddiant a gweithdai adnabod rhywogaethau ar gyfer cymunedau, e.e. gweithdai adnabod amffibiaid, teithiau cerdded i adnabod blodau gwyllt y gamlas, arolygon ystlumod. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | Cydlynydd Camlas CBST | Ariannu | 1-6 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 11: Cyflawni'r Weledigaeth o adfer y gallu i deithio'n llwyr i ganol tref Cwmbrân trwy ddatblygu achos busnes, sicrhau adnoddau, a chyllid a chreu cyrchfan newydd ar ochr y gamlas** | | | | | |
| Comisiynu Arolwg Cynaliadwyedd Dŵr i benderfynu a oes cyflenwad o ddŵr cynaliadwy a hirdymor ar gyfer y gamlas er mwyn gallu adfer y gallu i deithio arni'n llwyr. Ystyried:<br>- Y gofynion posibl ar ddŵr a'r dŵr sydd ar gael<br>- Perygl/rheoli llifogydd<br>- Ffynonellau dŵr posibl<br>- SUDS. | Grŵp Gweithrediadau CBST | | Ariannu | 1-6 | |
| Canfod perchnogaeth a hawliau mynediad ar gyfer tir sy'n ofynnol ar gyfer cynllun adfer a chysylltu ag unrhyw unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynlluniau. | Cydlynydd Camlas CBST | Partneriaeth Camlas Torfaen<br>TCBC Asset Management | Dim | 1,2,3,4 | |
| Llunio adroddiad cynhwysfawr ar gyfer pob un o Ardaloedd Strategaeth y gamlas sy'n amlinellu'r holl dasgau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer adfer a llywio gan gynnwys pa arolygon (e.e. risg llifogydd a rheoli dŵr), pa gynlluniau, a pha ganiatâd sydd eu hangen. I gynnwys amserlenni dangosol, costau cysylltiedig i gomisiynu'r arolygon a'r cynlluniau, a'r adnoddau pellach sydd eu hangen ar gyfer datblygu a darparu ceisiadau. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST<br>Partneriaeth Camlas Torfaen<br>Gwasanaethau ymgynghori ar gost/dylunio/peirianneg allanol | Ariannu | 1,2,3,4 | |
| Datblygu Strategaeth Codi Arian erbyn Rhagfyr 2025 i ariannu'r pecynnau gwaith adfer cam wrth gam. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Tîm Cyllid Allanol TCBC<br>Funding partners<br>Gwasanaethau ymgynghori ar gost/dylunio/peirianneg allanol | Dim | 1,2,3,4 | |
| **Amcan 12: Galluogi creu swyddi a thwf o fewn y Fwrdeistref drwy hyrwyddo busnesau presennol a denu busnesau a buddsoddiad newydd ar hyd coridor y gamlas** | | | | | |
| Datblygu prosbectws buddsoddi mewn camlesi gyda chyfleoedd bach a mawr i fusnesau fuddsoddi'n uniongyrchol yn y gamlas — e.e. noddi mainc, noddi 1km o lwybr tynnu, rhentu llain ar gyfer caffi symudol, prydlesu angorfeydd. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Busnesau lleol<br>Tîm Datblygu Economaidd TCBC | Dim | 1-6 | |
| Datblygu cysylltiadau ac archwilio diddordeb a chyfleoedd gyda busnesau bach, gan ganolbwyntio ar ardaloedd Gweithredu Strategol y gamlas i annog integreiddio'r gamlas mewn cynllunio marchnad a busnes. | Tîm Adfywio Strategol CBST | Busnesau lleol<br>Partneriaid y gamlas | Dim | 1-6 | |

| CAM 2: (2026-2029) Symud Tuag At Adfer | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Partneriaid** | **Dibyniaethau** | **Adran/au Perthnasol o'r Gamlas** | **Thema** |
| **Amcan 1: Rheoli ased y gamlas yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy i ddarparu dyfrffordd a llwybr tynnu diogel a gweithredol, gydag effeithiau newid hinsawdd newydd ac argyfwng natur yn cael eu hystyried yn briodol drwy gynllun rheoli cyd-gysylltiedig** | | | | | |
| Nodi cyfleoedd i wella rheoli mannau gwyrdd ar y gamlas ac o'i chwmpas. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| Ymchwilio i'r cyfraniadau posibl gall y gamlas eu gwneud tuag at gyrraedd targed y Cyngor i fod yn garbon sero-net erbyn 2030 e.e. cyfleoedd am ynni adnewyddadwy gan gynnwys pŵer micro-trydan dŵr. | Cydlynydd Camlas CBST | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 2: Gwella Cynllun Rheoli' Gamlas yn barhaus trwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd** | | | | | |
| Diweddaru'r Cynllun Rheoli ym mhob cam adfer allweddol ar raddfa fawr. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 3: Sicrhau bod y Gamlas yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel i bawb trwy ddarparu ymyriadau prosiect penodol** | | | | | |
| Adolygiad o gyfleoedd i gynyddu goleuadau ar y llwybr halio yn unol â pholisïau goleuo TCBC ehangach. Cyflawni yn seiliedig ar ganlyniadau adolygu. | Cydlynydd Camlas CBST | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 4: Datblygu'r gamlas fel cyrchfan eithriadol yn ei hawl ei hun, sy'n denu mwy o ymwelwyr drwy ddatblygu cynnig hamdden strategol sy'n gwella rôl y gamlas fel cyswllt rhwng atyniadau yn Nhorfaen a thu hwnt** | | | | | |
| Datblygu cyfleoedd i gyflwyno cychod i adrannau'r gamlas sy'n weddill - e.e. canŵ, bwrdd padlo, cychod rhwyfo. Cynnwys adolygiad o storio, mynediad, cyfleusterau diogelwch. | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST | | Ariannu | 2-6 | |
| **Amcan 5: Defnyddio'r gamlas i'r eithaf fel llwybr teithio strategol trwy wella'r seilwaith teithio llesol, cynnig cyfleusterau gwell, a chynyddu cyfleoedd i bobl ddewis trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer eu taith gyfan neu rywfaint o'u taith** | | | | | |
| Gweithredu a chyflawni rhaglen gwelliannau i groesfannau Ffordd Teithio Llesol. | Teithio Llesol CBST | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 6: Cefnogi dull partneriaeth o weithredu, cyflwyno, cyfathrebu a monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol drwy weithredu fframwaith llywodraethu** | | | | | |
| Adolygu Strwythur Llywodraethu i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ar gyfer cyflawni prosiectau adfer ar raddfa fawr a ragwelir, archwilio modelau cyflawni a fframweithiau cyfreithiol ar gyfer cyflawni a gweithgarwch gweithredol parhaus. | Cydlynydd Camlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 7: Adeiladu a gwella cydlyniant cymunedol ar hyd coridor y gamlas, drwy ymgysylltu â chymunedau amrywiol i gyd-greu cyfleoedd cynhwysol i fwy o bobl gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Strategaeth hon** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bydd sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei threfnu i bobl ofyn cwestiynau am gyflwyno'r strategaeth. | Gweithgor Thematig: Cymunedau a Phartneriaeth | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 8: Meithrin rhwydwaith o Wirfoddolwyr medrus sy'n ymgysylltu, a rhaglen waith sy'n cefnogi rheoli coridor y gamlas mewn modd cynaliadwy drwy gymryd ymagwedd gydgysylltiedig tuag at weithgarwch** | | | | | |
| Datblygu a cheisio cyllid ar gyfer prosiect sgiliau a datblygu gwirfoddol a fydd yn parhau i adeiladu sylfaen gwirfoddolwyr a chynyddu sgiliau. Bydd gweithgarwch gwirfoddolwyr yn cael ei arwain gan y gofrestr asedau treftadaeth adeiledig a mapio cyfleoedd ecolegol. I gynnwys, lle bo'n bosibl, swydd Goruchwyliwr Gwirfoddolwyr i arwain y prosiect. | Gweithgor Thematig: Cymunedau a Phartneriaeth | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen<br>MBACT | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 9: Gwella cyflwr gwerth treftadaeth y gamlas gyfan drwy sicrhau bod y gwaith o'i chadw a'i gwella yn cael ei ystyried a'i rheoli'n briodol** | | | | | |
| | | | | | |
| **Amcan 10: Codi proffil arwyddocâd treftadaeth y gamlas i gefnogi mwy o werthfawrogiad a gwybodaeth drwy ymgysylltu â'r gymuned a rhannu gwybodaeth** | | | | | |
| Datblygu prosiect hanes llafar i gofnodi hanes llafar camlas Torfaen i'w gadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a'i rannu gyda chymunedau. Chwilio am gyllid i gyflawni. | Gweithgor Thematig: Treftadaeth Gydnerth | | Ariannu | 1-6 | |
| Datblygu arddangosfa o dreftadaeth y gamlas. | Cydlynydd Camlas CBST | Amgueddfa Torfaen<br>Cymuned<br>NLHF | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 11: Cyflawni'r Weledigaeth o adfer y gallu i deithio'n llwyr i ganol tref Cwmbrân trwy ddatblygu achos busnes, sicrhau adnoddau, a chyllid a chreu cyrchfan newydd ar ochr y gamlas** | | | | | |
| Paratoi achos busnes gan gynnwys achos economaidd / cymdeithasol / amgylcheddol ar gyfer buddsoddiad i gefnogi ceisiadau arian sy'n darparu gwaith adfer a'r gallu i deithio o Five Locks i Ganol Tref Cwmbrân. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Partneriaeth Camlas Torfaen<br>Gwasanaethau ymgynghori ar gost/dylunio/ peirianneg allanol | Ariannu | 1-4 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi pecynnau gwaith dylunio a chost llawn ar gyfer pob un o Ardaloedd Strategaeth y gamlas i alluogi darparu llywio fesul cam /teithio'n gyfan gwbl i Ganol Tref Cwmbrân. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Grŵp Gweithrediadau'r Gamlas CBST<br>Partneriaeth Camlas Torfaen<br>Gwasanaethau ymgynghori ar gost/dylunio/ peirianneg allanol | Ariannu | 1-4 | |
| Ceisio buddsoddiad gan y sector preifat a phartneriaid cyflawni i gefnogi datblygiad Canalside yn unol â Pholisi SAA 2 o Gynllun Datblygu Lleol Torfaen (2013). | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Partneriaeth Camlas Torfaen | Tîm Adfywio Strategol CBST | 4 | |
| Ceisio cyllid ar gyfer gweithredu pecynnau prosiect Ardal Strategaeth yn ôl y Strategaeth Codi Arian. | Tîm Adfywio Strategol CBST | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 12: Galluogi creu swyddi a thwf o fewn y Fwrdeistref drwy hyrwyddo busnesau presennol a denu busnesau a buddsoddiad newydd ar hyd coridor y gamlas** | | | | | |



| CAM 3: (2029-2034) Cyrraedd Canol y Dref | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Partneriaid** | **Dibyniaethau** | **Adran/au Perthnasol o'r Gamlas** | **Thema** |
| **Amcan 1: Rheoli ased y gamlas yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy i ddarparu dyfrffordd a llwybr tynnu diogel a gweithredol, gydag effeithiau newid hinsawdd newydd ac argyfwng natur yn cael eu hystyried yn briodol drwy gynllun rheoli cyd-gysylltiedig** | | | | | |
| Ystyried y cynlluniau tymor hir ar gyfer gweithredu'r gamlas yn fasnachol yn Nhorfaen. | Grŵp Gweithrediadau CBST | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 2: Gwella Cynllun Rheoli'r Gamlas yn barhaus trwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd** | | | | | |
| Parhau i gynnal adolygiad blynyddol a diweddariad o Gynllun Rheoli'r Gamlas. | Grŵp Gweithrediadau CBST | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 3: Sicrhau bod y Gamlas yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel i bawb trwy ddarparu ymyriadau prosiect penodol** | | | | | |
| Gweithio gyda pherchnogion cyfagos y gamlas i ddatblygu dull cyson ar hyd llwybr halio. | Cydlynydd Camlas CBST | Pob ALI<br>Holl Bartneriaid y Gamlas | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 4: Datblygu'r gamlas fel cyrchfan eithriadol yn ei hawl ei hun, sy'n denu mwy o ymwelwyr drwy ddatblygu cynnig hamdden strategol sy'n gwella rôl y gamlas fel cyswllt rhwng atyniadau yn Nhorfaen a thu hwnt** | | | | | |
| Parhau i ddatblygu cysylltiadau ehangach gyda sefydliadau a chynlluniau lleol a chenedlaethol i hyrwyddo'r gamlas fel "cyrchfan." | Partneriaeth Camlas Torfaen | Glandŵr Cymru<br>MBACT<br>Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 5: Gwella gamlas fel llwybr teithio strategol drwy gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer y cyfan neu rywfaint o'u taith** | | | | | |
| Ystyried cyfleoedd ar gyfer integreiddio'r gamlas a'r llwybr tynnu o fewn strategaethau trafnidiaeth ehangach, yn enwedig cynlluniau ar gyfer opsiynau trafnidiaeth gwyrddach sy'n cysylltu'r gamlas â'r fwrdeistref ehangach. | Gweithgor Thematig: Datblygu Cyrchfan | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 6: Cefnogi dull partneriaeth o weithredu, cyflwyno, cyfathrebu a monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol drwy weithredu fframwaith llywodraethu** | | | | | |
| Datblygu cysylltiadau â Chyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o gynllunio yn y dyfodol ar gyfer parhau i adfer ymhellach i'r de. | Partneriaeth Camlas Torfaen | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 7: Adeiladu a gwella cydlyniant cymunedol ar hyd coridor y gamlas, drwy ymgysylltu â chymunedau amrywiol i gyd-greu cyfleoedd cynhwysol i fwy o bobl gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Strategaeth hon** | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 8: Meithrin rhwydwaith o Wirfoddolwyr medrus sy’n ymgysylltu, a rhaglen waith sy’n cefnogi rheoli coridor y gamlas mewn modd cynaliadwy drwy gymryd ymagwedd gydgysylltiedig tuag at weithgarwch** | | | | | |
| Parhau i ddatblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol ar hyd y gamlas i archwilio cyfleoedd i integreiddio’r gamlas yn eu dyheadau prosiect tymor canolig a thymor hir unigol e.e. Cyfeillion grwpiau | Cydlynydd Camlas CBST | | Dim | 1-6 | |
| **Amcan 9: Gwella cyflwr gwerth treftadaeth y gamlas gyfan drwy sicrhau bod y gwaith o’i chadw a’i gwella yn cael ei ystyried a’i rheoli’n briodol** | | | | | |
| Adolygu a diweddaru cynigion Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. | Cynllunio CBST | Cadw | Ariannu | 1-6 | |
| Datblygu Canllawiau Dylunio ar gyfer Ardal Cadwraeth y Gamlas fel Canllawiau Cynllunio Atodol i’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i gynorthwyo rheoli’r gamlas a llywio datblygiad cynigion dylunio adfer/teithio ar y gamlas. | Cynllunio CBST | Cadw | Ariannu | 1-6 | |
| Trwy’r gweithgareddau i adfer teithio ar y gamlas, bydd cyflwr treftadaeth y gamlas yn cael ei wella yn y tymor hir. | Pawb | | Ariannu | 1-6 | |
| **Amcan 10: Codi proffil arwyddocâd treftadaeth y gamlas i gefnogi mwy o werthfawrogiad a gwybodaeth drwy ymgysylltu â’r gymuned a rhannu gwybodaeth** | | | | | |
| | | | | | |
| **Amcan 11: Cyflawni’r Weledigaeth o adfer y gallu i deithio’n gyfan gwbl i ganol tref Cwmbrân trwy ddatblygu achos busnes, sicrhau adnoddau, a chyllid a chreu cyrchfan newydd ar ochr y gamlas** | | | | | |
| Cwblhau pecynnau gwaith adfer i gyrchfan camlas newydd yng Nghanol Tref Cwmbrân. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Partneriaeth Camlas Torfaen | Ariannu | 1-4 | |
| Archwilio dichonoldeb i ddatblygu Safle Adfer Tŷ Coch ymhellach. | Cydlynydd Camlas CBST<br>Tîm Adfywio Strategol CBST | Partneriaeth Camlas Torfaen | Ariannu | 6 | |
| Gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddatblygu dyheadau hirdymor ar gyfer adfer mordwyaeth ymhellach i’r de. | Partneriaeth Camlas Torfaen | Cyngor Dinas Casnewydd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Dim | 6 | |

| Amcan 12: Galluogi creu swyddi a thwf o fewn y Fwrdeistref drwy hyrwyddo busnesau presennol a denu busnesau a buddsoddiad newydd ar hyd coridor y gamlas | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid buddsoddi yn y sector preifat i ddatblygu cyrchfan newydd ar ochr y gamlas i'r gorllewin o ganol tref Cwmbrân. | Partneriaeth Camlas Torfaen | Partneriaid datblygu'r sector preifat<br>Perchnogion Canol Tref Cwmbrân | Partneriaid Buddsoddi | 4 | |







Strategaeth

# Camlas Mynwy ac Aberhonddu

2024 - 2034

©2023 Communications Design
Bwrdeistref Sirol Torfaen (3691)